Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Sannan
# Ffordd Ty Fry
# Aberbargoed
# Bargoed
# CF81 9FN

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bro Sannan ym mhentref Bargoed, Caerffili. Dalgylch yr ysgol yw Aberbargoed, Cefn Fforest, Markham, Argoed a Llwyncelyn. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2004 ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol un, ac ers 2005 mae'r ysgol wedi darparu ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol dau. Mae 195 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys 14 disgybl rhan amser oed meithrin.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r uwchradd. Daw 8% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae 2% o gefndir ethnig sy'n is na chanran yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod yn datgan fod yr ardal lle lleolir yr ysgol o dan anfantais economaidd. Mae 28% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim sy'n uwch na'r canran cenedlaethol ac mae 22% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Mae newid mawr wedi bod yn staff yr ysgol a'r staff rheoli ers yr arolygiad diwethaf. Yn dilyn ymddeoliad y cyn pennaeth yn nhymor y Pasg 2011, penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2011.

Y gyllideb unigol fesul disgybl yn 2011-2012 ar gyfer Ysgol Bro Sannan yw £3,109. Yr uchafswm fesul disgybl yng Nghaerffili yw £6,779 a'r isafswm yw £2,498. Mae Ysgol Bro Sannan yn 27ain allan o 75 ysgolion cynradd yng Nghaerffili yn nhermau cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Bro Sannan yn dda oherwydd mae:

- disgyblion 7 oed yn perfformio'n well nag ysgolion y teulu yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf;
- safon y gwaith a welwyd yn llyfrau'r disgyblion ac yn y gwersi yn gyson dda;
- mae'r disgyblion yn cyfranogi'n llawn yn y gwersi ac yn dangos cynnydd clir yn eu gallu i weithio'n annibynnol;
- mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n hyrwyddo nifer o agweddau o les ac emosiwn yn dda; a bod
- cydweithio cadarn ac ymdeimlad cryf o dîm ymysg staff yr ysgol.

Fodd bynnag:

- Nid yw safonau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion wedi datblygu'n llawn eto.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn sy'n cael ei rhannu â holl rhanddeiliaid yr ysgol;
- bod ganddi adnabyddiaeth dda o'r ysgol, ac mae'n cynnig arweiniad a chyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol;
- bod y pennaeth wedi ffocysu'n llwyddiannus ar les disgyblion a chreu cymuned hapus a gofalgar;
- bod y tîm rheoli wedi gosod strategaethau cadarn ar waith i godi safonau llythrennedd ar draws yr ysgol; mae hyn yn dechrau cael effaith dda ar gyflawniad y disgyblion; a
- mae gan yr ysgol system tracio fanwl ac effeithiol sy'n olrhain cynnydd disgyblion mewn sawl maes o fywyd yr ysgol:

Er hynny:

- nid yw'r hunanarfarnu'n ddigon treiddgar i osod targedau heriol a phenodol ar gyfer gwelliant; a
- nid yw rôl y corff llywodraethol wedi ei datblygu'n llawn i herio'r ysgol ynglŷn â safonau'r ysgol.

## Argymhellion

A1 codi safonau darllen yng nghyfnod allweddol dau a datblygu uwch sgiliau darllen y disgyblion hynaf;

A2 codi safonau ysgrifenedig drwy'r ysgol a lleihau'r gagendor rhwng bechgyn a merched;

A3 datblygu'r ddogfen hunanarfarnu fel ei bod yn fwy arfarnol a bod y cynllun datblygu ysgol yn nodi targedau mwy penodol a meintiol er mwyn gwelliant;

A4 datblygu strwythur a rôl y corff llywodraethol ym mywyd yr ysgol i fod yn fwy atebol am y safonau a gyflawnir gan y disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad y disgyblion saith mlwydd oed sydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pynciau craidd) wedi codi o 75% yn 2007 i 88% yn 2011. Mae perfformiad y disgyblion yn gyson uwch na'r teulu dros y pum mlynedd diwethaf. Perfformiodd merched 7 oed yn well na'r bechgyn o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 ac uwch mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu.

Yng nghyfnod allweddol dau, mae'r dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf, ac eithrio 2009 a 2010 pan oedd y garfan a aseswyd yn fach, a llawer o'r disgyblion ag anghenion dysgu penodol. Mae perfformiad y disgyblion yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf. Roedd nifer y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 5 ac uwch yn 2011 yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu. Perfformiodd y merched 11 oed yn well na'r bechgyn o ran y dangosydd pynciau craidd mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae perfformiad disgyblion 11 mlwydd oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pynciau craidd o'i gymharu ag ysgolion tebyg sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 50% uchaf dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion afael gadarn ar y Gymraeg sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd, gyda'r disgyblion sydd o gartrefi di-Gymraeg yn dod yn rhugl yn fuan. Mae'r mwyafrif yn cyfrannu'n frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn hyderus wrth drafod eu gwaith gan fynegi eu hunain yn glir a chyda pheth chywirdeb. Gallant sôn am ddigwyddiadau yn y storïau maent wedi eu darllen, gan fynegi barn yn syml am gymeriadau a digwyddiadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall mwyafrif o'r disgyblion ysgrifennu'n greadigol gan ddangos gafael briodol o ffurf ac atalnodi sylfaenol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol dau, mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Dônt yn hyderus wrth siarad am eu gwaith ac mewn sgyrsiau anffurfiol, a hynny yn y ddwy iaith. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth y lleiafrif o ddisgyblion o'r hyn maent yn ei ddarllen a'u gallu i ymateb i arddull awduron yn annatblygedig. Mae'r disgyblion sydd wedi derbyn cymorth ychwanegol i wella eu medrau darllen yn gwneud cynnydd priodol.

Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol dau yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig yn y ddwy iaith. Maent yn dangos safon briodol o ran cywirdeb iaith ynghyd â'u gallu i drefnu eu gwaith yn baragraffau. Er hynny, prin yw'r cynnwys ac nid oes digon o fanylder yn y gwaith. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau gwneud defnydd priodol o ailddrafftio i wella ar eu hymdrechion cyntaf.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n dda ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a gyflwynwyd iddynt. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Medrant leisio barn a mynegi pryder yn hyderus drwy'r 'bocs teimladau' a thrwy weithgareddau megis amser cylch. Maent yn falch o fedru helpu eraill fel 'ffrindiau ffyddlon' a thrwy weithgareddau codi arian, ac maent wedi codi arian at nifer o elusennau ac achosion da.

Dengys y rhan fwyaf o ddisgyblion fwynhad a diddordeb yn eu gwaith. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn gyfeillgar i'w gilydd, ac i oedolion. Mae gan bron pob disgybl y medrau priodol i gydweithio gydag eraill, i ddatrys problemau ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu.

Mae pob disgybl yn cael ei gymell i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Cyfranna'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn effeithiol at wneud penderfyniadau a thrafod gwelliannau parhaus.

Mae gan y disgyblion hŷn ddealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd byd gwaith trwy fod yn gyfrifol am y siop ffrwythau.

Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, ac mae eu presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg.

Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol, a'r profiadau allgyrsiol, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn briodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb ac yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Maent yn cyd-gynllunio yn effeithiol ac mae hyn yn sicrhau datblygiad a chysondeb da ar draws yr ysgol. Mae'r ystod o ymweliadau a phrofiadau a drefnir ar gyfer y disgyblion, yn cyfoethogi eu dysgu. Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol dau, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion gyfrannu at y cynllunio ac i ddewis themâu sy'n apelio atynt.

Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio Cymraeg safonol ar draws yr ysgol ymysg y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn gryfder. Mae ethos Cymraeg a Chymreig yn perthyn i'r ysgol ac mae bron pob disgybl yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei integreiddio mewn nifer o agweddau o'r cwricwlwm a datblygir ymdeimlad o Gymreictod drwy weithgareddau ysgol ac allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn targedu grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn llwyddiannus, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a deilliannau'r disgyblion hyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Dengys y disgyblion aeddfedrwydd wrth drafod materion o'r fath. Gweithreda'r ysgol mewn modd cynaliadwy trwy ailgylchu ac mae gwaith y Cyngor Eco yn ategu pwysigrwydd hyn i'r ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi bywiog ac ysgogol. Mae tasgau diddorol a chwestiynu treiddgar yn herio'r disgyblion, ac mae cyflymder pwrpasol ac anogaeth yn hybu eu hymrwymiad a'u mwynhad yn y gwersi. Mae perthynas waith llwyddiannus iawn yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion sy'n meithrin dysgu effeithiol ar draws yr ysgol. Rheolir ymddygiad disgyblion mewn modd sensitif ac effeithiol.

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad ac ansawdd y gwaith a gyflwynir gan y disgyblion. Cynllunnir yn addas ac effeithiol ar gyfer yr ystod gallu. Serch hynny, mae diffyg cyfleoedd i ddatblygu ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith ar draws ystod o bynciau. Mae'r ysgol wedi gosod strategaethau yn eu lle yn ddiweddar i ddatblygu darllen disgyblion. Er hynny, nid yw hyn wedi ei wreiddio eto ar draws yr ysgol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu hintegreiddio i'r gwersi, a bellach yn datblygu'n gyson ar draws yr ysgol. Mae amcanion a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion yn rheolaidd. Gweithredir system marcio ac ymateb i waith plant effeithiol ar draws yr ysgol ac mae hyn yn meithrin gallu'r disgyblion i wella agweddau penodol o'u gwaith.

Caiff rhieni wybodaeth am gynnydd a datblygiad eu plant ar ffurf adroddiad blynyddol; mae'r adroddiadau yn fanwl ac yn cynnwys targedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae system 'Ffrindiau Ffyddlon' yn atgyfnerthu'r ethos o barch, cyfrifoldeb a gofal sy'n elfen gref o fywyd yr ysgol. Ffurfiwyd clwb fel rhan o gynllunio'r ysgol i fynd i'r afael â hybu hyder disgyblion swil ac ansicr ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu. Manteisia'r ysgol ar bob cyfle i gynnig cynhaliaeth fugeiliol o safon uchel i'r disgyblion. Gwneir defnydd priodol o wasanaethau arbenigol megis

ymwelwyr iechyd a'r heddlu i gynnal iechyd corfforol ac emosiynol y disgyblion. Mae'r staff yn darparu gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol ynghyd â gweithgareddau ynghlwm ag Ysgolion Iach ac Eco Ysgolion. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda tuag at y profiadau amrywiol a gwerthfawr a ddarperir i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl iawn sy'n adnabod disgyblion ag anghenion addysgol trwy arsylwi cyson, cyd-drafod â rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae system tracio lwyddiannus yr ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion, ac o ganlyniad mae gan y staff adnabyddiaeth dda o anghenion y disgyblion. Mae rhaglenni gwaith y disgyblion yn dylanwadu'n gadarnhaol ar flaengynllunio o fewn y dosbarthiadau. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n dda iawn ac mae cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu**.**

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos gynhwysol iawn yn yr ysgol. Mae yma gymuned groesawgar a cheir awyrgylch gynnes ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae yma barch at bob unigolyn a phawb yn awyddus i helpu ei gilydd. Caiff pawb gyfle i fod yn rhan o fywyd yr ysgol ac mae'r polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i ganiatáu hyn i ddigwydd.

Gwneir defnydd arbennig o'r adeilad yn fewnol ac yn allanol i greu gofod dysgu symbylus ac apelgar. Mae'r holl arddangosfeydd o safon uchel. Maent yn ysgogol a deniadol ac yn hybu dysgu effeithiol. Mae yma gyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r cyfleusterau'n lân ac addas, a chaiff yr holl safle a'r adeilad ei gadw'n raenus. Addysgir y disgyblion i barchu ac i ofalu am eu hamgylchedd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mewn cyfnod byr mae wedi llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mae ganddi adnabyddiaeth dda o'r ysgol ac mae'n cynnig arweiniad a chyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Trwy gydweithrediad y staff a'r llywodraethwyr, llwyddodd y pennaeth mewn byr amser i osod strategaethau ar waith sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles y disgyblion.

Mae uwch dîm rheoli bellach wedi'i sefydlu yn yr ysgol a hynny ar ôl cyfnod o ansicrwydd ac absenoldeb. Mae'r ethos o gydweithio yn gryfder ymysg yr uwch dîm rheoli. Mae gan holl staff yr ysgol ddisgrifiadau swyddi ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen bellach wedi ei sefydlu'n gadarn ac fe ddefnyddir ystod eang o adnoddau pwrpasol i ysgogi diddordeb ac atgyfnerthu profiadau'r disgyblion. Rhoddir sylw priodol i lais y dysgwr ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae cyfnod o ansicrwydd a newidiadau yn staff yr ysgol, a'r corff llywodraethol wedi dylanwadu ar allu'r llywodraethwyr i gyflawni eu dyletswyddau'n llawn. Derbyniant adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth a staff yr ysgol am safonau ac maent yn ymwybodol o rai agweddau o'r cwricwlwm sydd angen eu datblygu. Er bod ganddynt beth ymwybyddiaeth o ddata perfformiad yr ysgol, nid yw eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio wedi datblygu'n ddigon i herio'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ddogfen hunanarfarnu'n rhoi darlun priodol o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi dechrau cynnwys y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion yn y broses hon. Mae'n broses sy'n cynnwys peth ddadansoddiad o ddata, arsylwi gwersi a monitro gwaith y disgyblion. Adnabyddir rhai o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Er hynny, mae'r ddogfen mewn mannau yn rhy ddisgrifiadol ac nid yn ddigon arfarnol.

Mae peth cysylltiad rhwng yr hunanarfarniad a'r cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun presennol yn cynnwys y targedau ar gyfer y camau gweithredu, costau, cyfrifoldebau ynghyd â'r meini prawf llwyddiant. Er hynny, nid yw'r ysgol yn defnyddio'r dystiolaeth o'r hunanarfarnu'n ddigon trylwyr i osod targedau heriol a phenodol ar gyfer gwelliant. Nid yw'r targedau'n ddigon meintiol, ac o ganlyniad nid yw'n hawdd mesur y cynnydd.

Mae'r staff wedi dechrau cydweithio mewn cymunedau dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol i ddatblygu medrau llythrennedd ac i ddenu bechgyn i ddarllen. Bellach mae'r ysgol wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith i ddatblygu safonau, ond mae'n ddyddiau cynnar i fesur eu heffaith ar safonau a deilliannau'r disgyblion

Ni weithredwyd yn llawn ar ddau o'r pum argymhelliad yn dilyn yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae'n cynnal cysylltiadau cadarnhaol iawn gyda rhieni i gefnogi'r dysgu, drwy ddangos parodrwydd i drafod unrhyw ofid a chroesawu deialog adeiladol ar ffyrdd i wella trefniadau'r ysgol. Rhoddir gwybodaeth drylwyr a chyson i rieni am gynnydd eu plant.

Mae cyswllt gyda'r gymuned yn dda, ac mae disgyblion yn elwa o ystod o ymweliadau allanol ac ymwelwyr i'r ysgol. Nid yw'r ysgol wedi dechrau ffurfio cyswllt gyda busnesau lleol hyd yn hyn.

Trefnir ymweliadau cyson rhwng disgyblion y Cylch Meithrin a'r ysgol. Mae'r cydweithio sy'n bodoli rhwng y Mudiad Meithrin a'r ysgol yn hyrwyddo partneriaeth glos ac effeithiol. Mae athrawon yn cyfarfod yn gyson gyda staff ysgolion y clwstwr i gymedroli gwaith disgyblion. Trwy weithdrefnau effeithiol, mae disgyblion yr ysgol yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn hwylus. Mae'r ysgol yn croesawu disgyblion o Ysgol Cwm Rhymni yn rheolaidd ar gyfer cyfnodau o brofiad gwaith.

Mae'r ysgol yn derbyn ystod eang o gefnogaeth sirol a gwasanaethau ymgynghorol, ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau o waith yr ysgol, er enghraifft codi safonau presenoldeb a hybu ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r Gymdeithas Rhieni yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn i waith yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i addysgu'r cwricwlwm. Caiff eu hyfforddiant ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol yn y cynllun datblygu ac amcanion rheoli perfformiad.

Mae cymorthyddion dosbarth, staff gweinyddol a'r gofalydd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i rediad llyfn yr ysgol. Defnyddir amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn effeithiol i gynllunio gwaith a monitro cynnydd disgyblion. Mae'r disgyblion yn elwa o wasanaeth athrawes ychwanegol rhan amser sydd yn cefnogi medrau llythrennedd.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r cyllid ac adnoddau'r ysgol yn effeithiol, ac adolyga'r gwariant yn rheolaidd gyda chymorth swyddogion yr awdurdod. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'i gweithdrefnau cynllunio ar gyfer gwelliant i nodi blaenoriaethau gwariant ar adnoddau dysgu. Gwnaiff yr ysgol ddefnydd da o'r cyllid ac o ffynonellau arian eraill megis y gronfa effeithiolrwydd ysgolion i dargedu cymorth a gwella ansawdd yr adnoddau dysgu. Er bod y llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau cyson ar wariant y cyllid, nid ydynt ar hyn o bryd yn chwarae rôl weithredol yn y monitro.

O ystyried safonau da gwaith cyfredol y disgyblion, ac arweinyddiaeth gadarn y pennaeth a'r tîm rheoli, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol un, mae perfformiad y disgyblion saith mlwydd oed sydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pynciau craidd) wedi codi o 75% yn 2007 i 88% yn 2011. Mae canlyniadau disgyblion 7 oed yn 2011 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio gyda'r gorau ymhlith y teulu o ran y dangosydd pynciau craidd. Mae perfformiad y disgyblion yn gyson uwch na'r teulu dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae cymariaethau dros gyfnod o bedair blynedd yn dangos bod disgyblion 7 oed yn perfformio'n gyson uwch na'r teulu yn Gymraeg, yn uwch na'r teulu mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf mewn mathemateg, ac yn uwch na'r teulu mewn gwyddoniaeth mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Perfformiodd y merched 7 oed yn well na'r bechgyn o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Mae'r disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 ac uwch mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu.

Yng nghyfnod allweddol dau, mae perfformiad y disgyblion a aseswyd yn y dangosydd pynciau craidd wedi dangos cynnydd dros y pum mlynedd diwethaf ac eithrio 2009 a 2010 pan oedd llawer o'r disgyblion ag anghenion dysgu penodol, ac ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae perfformiad y disgyblion ar lefel 4 ac uwch yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu mewn tair o'r bum mlynedd diwethaf. Nid yw perfformiad y disgyblion ar lefel 5 ac uwch yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu a Chymru dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad disgyblion 11 oed mewn ysgrifennu Saesneg a Chymraeg wedi bod yn sylweddol is na'r teulu a Chymru am y pedair blynedd diwethaf. Perfformiodd y merched 11 oed yn well na'r bechgyn o ran y dangosydd pynciau craidd mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg dros gyfnod o bedair blynedd tra mae'r bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn 2011, roedd cyflawniad disgyblion cyfnod allweddol un a dau sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn is na'r rhai nad oes ganddynt hawl iddynt. Mae hyn yn wir am y pum mlynedd diwethaf.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i holiadur i rieni**

Derbyniwyd 26 o ymatebion gan rieni:

Mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol a bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu yn yr ysgol;
- bod y staff yn disgwyl i'w plentyn wneud ei orau;
- bod y gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff; a
- bod yr ysgol yn helpu 'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mae bron pob un yn nodi:

- bod yr addysgu'n dda a bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- bod y staff yn trin pob plentyn gyda pharch;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a'u
- bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio ã chwynion.

Mae'r rhan fwyaf yn nodi:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- bod eu plentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol priodol.

Mae llawer yn nodi:

- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.

Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn debyg i'r cyfartaleddau ar draws ysgolion Cymru. Fodd bynnag, 89% o rieni sy'n nodi bod yr ymddygiad yn dda sy'n is na'r ffigwr cyfatebol o 96% ar draws ysgolion Cymru.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 72 o ymatebion cyfnod allweddol 2

Mae rhan fwyaf yn nodi:

- bod yr athrawon eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae llawer yn credu:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith; a
- bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;

Mae'r mwyafrif yn credu:

- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae ymatebion disgyblion yr ysgol yn debyg i ymatebion disgyblion ar draws Cymru.  Fodd bynnag, dim ond tua hanner o ddisgyblion Bro Sannan sydd o'r farn bod ymddygiad amser chwarae ac amser cinio yn dda o'i gymharu a'r ffigwr cyfatebol o 84% ar draws ysgolion Cymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Helen Hopkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tracey Addicott | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.